# DRAFT MINUTES

| Meeting ID | 2325 |
| --- | --- |
| Committee | Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Date | 23/02/2022 |
| Attendees | Cynghorwyr Stewart Healy (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Peter Baldwin (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Cross (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Wayne Hodgins (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Hedley McCarthy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stephen Thomas (Aelod Pwyllgor)<br>Michelle Morris (Swyddog)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Richard Crook (Swyddog)<br>Rhian Hayden (Swyddog)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Clive Rogers (Swyddog)<br>Sarah King (Swyddog)<br>Andrea Prosser (Swyddog)<br>Andrew Parker (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Gina Taylor (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Monitor)<br>Pob Cynghorydd (Monitor)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog) |

| Item ID | 5892 |
| --- | --- |

| | |
|---|---|
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| Item ID | 5893 |
|---|---|
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Collier a J.P. Morgan.<br><br>Prif Swyddog Masnachol a Phartneriaid<br>Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau |

| Item ID | 5894 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| Item ID | 5895 |
|---|---|
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| Item ID | 6004 |
|---|---|
| Item Title | Dalen Weithredu – 10 Rhagfyr 2021 |
| Summary | Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor y dylid nodi'r ddalen weithredu. |

| Item ID | 6005 |
|---|---|
| Item Title | Cynllun Adferiad Covid 19 Blaenau Gwent |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol a gyflwynwyd i nodi a cheisio barn y Pwyllgor Craffu ar y dull gweithredu i'w ddefnyddio i fonitro adferiad o bandemig Covid 19 ar draws gwasanaethau'r Cyngor a'r gymuned yn ehangach.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd yr adroddiad yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo. |

| | |
|---|---|
| | Cyfeiriodd Aelod at nifer yr ymwelwyr yng nghanol tref Brynmawr a holodd os oedd y data yn gywir. Os mai'r bwriad yw cynyddu'r nifer i lefelau cyn y pandemig, teimlai fod angen i'r data fod yn fanwl gywir. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth eu bod wedi cymryd data o ddyfeisiau cyfrif pêl-droed yng nghanol pob un o'r canol trefi ond byddai'n holi cydweithwyr yn yr adran Amgylchedd i sicrhau fod y niferoedd yn gywir.<br><br>Gan fod cynllun ffyrlo y Llywodraeth yn dod i ben ym mis Mawrth, holodd Aelod am ymgynghoriad yr Awdurdod a chyswllt gyda busnesau lleol. Gan fod Swyddogion Adfywio wedi methu mynychu'r cyfarfod, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd y dynodwyd fod yr economi yn faes allweddol o ffocws a bod cynllun gweithredu dan arweiniad cydweithwyr yn yr adran economaidd yn ei le i gefnogi busnesau ar draws Blaenau Gwent. Yng nghyswllt dialog gyda busnesau byddai angen iddi ymgynghori gydag arweinwyr thema. Dywedodd wrth Aelodau mai man dechrau yw hyn ac y gallai adroddiadau a gyflwynir i bwyllgorau craffu o hyn ymlaen gynnwys mwy o fanylion yng nghyswllt ardaloedd penodol.<br><br>Awgrymodd Aelod y dylid cyflwyno adroddiad cynnydd i'r pwyllgor craffu perthnasol i ystyried pa becynnau cymorth all fod eu hangen oherwydd fod y cynllun ffyrlo yn dod i ben. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth y gellid cyflwyno adroddiad cynnydd ar themâu a ddynodwyd fel eitem agenda bosibl ar gyfer cylch newydd y pwyllgor.<br><br>Gan nad oedd Swyddogion Adfywio yn bresennol yn y cyfarfod, awgrymodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y gallai'r Aelod godi ei bryderon gyda Chyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol ar ôl y cyfarfod i gael dealltwriaeth well o'r gwaith a wneir gyda busnesau lleol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef argymell i'r Pwyllgor Gweithrediaeth y dylid symud ymlaen gyda'r dull gweithredu a nodir i reoli adferiad o bandemig Covid 19 ar draws gwasanaethau'r Cyngor a'r gymuned yn ehangach. |

| Item ID | 6006 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Cyllid a Pherfformiad Chwarteri 1 a 2 (Ebrill 2021 i Medi 2021) |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd sy'n cyflwyno Adroddiad Cyllid a Pherfformiad ar gyfer Chwarteri 1 a 2 (Ebrill 2021 i Medi 2021).<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Dywedodd Aelod ei bod yn siomedig nad oedd pob uwch swyddog yn bresennol i gynrychioli'r gwasanaeth i gyfarch sylwadau Aelodau a theimlai fod yr adroddiad yn rhy gadarnhaol. Er mwyn rhoi darlun go iawn teimlai y dylai'r adroddiad gynnwys crynodeb ar ddechrau pob adran wedi ei baratoi |

| | |
|---|---|
| | gan y Cyfarwyddwyr Corfforaethol unigol. Yng nghyswllt pwysau ariannol, teimlai hyd yn oed gyda mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru dros y pum mlynedd ddiwethaf, bod yr Awdurdod yn dal i fod mewn trafferthion ariannol ac wedi gorfod defnyddio’r MRP i gael cyllideb gytbwys. Cyfeiriodd at Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a dolen reilffordd Abertyleri a theimlai y dylai’r Awdurdod ddefnyddio cyllid y Brifddinas-Ranbarth ar gyfer cyfleoedd eraill i ddatblygu prosiectau.<br><br>Cododd y Cadeirydd hefyd bryderon am bresenoldeb uwch swyddogion a theimlai y dylid hysbysu’r Cadeirydd ymlaen llaw os nad yw uwch swyddogion yn medru mynychu cyfarfodydd craffu.<br><br>Derbyniodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y pwynt hwn a chyfeiriodd at sylwadau Aelodau am Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a dywedodd fod prosiectau eraill yn cael eu datblygu tebyg i’r prosiect hyfywedd tai yn Nhredegar. Mae hefyd brosiectau eraill y Fargen Ddinesig yn dod ymlaen ar draws y rhanbarth sydd mewn camau cynnar cael eu hystyried gyda chydweithwyr rhanbarth Blaenau’r Cymoedd a Bargen Ddinesig Llywodraeth Cymru.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y gwasanaeth bws a theimlai y gallai hyn ffurfio system drafnidiaeth integredig gyda’r ddolen reilffordd.<br><br>Teimlai Aelod arall fod angen i’r adroddiad fod yn fwy cytbwys a rhoi sylw i’r materion y mae’r Awdurdod yn eu gwneud yn dda a materion lle mae angen mwy o waith. Cododd bryderon am nifer o faterion e.e. cyfathrebu gyda’r cyhoedd pan nad yw systemau ar gael, cysylltedd technoleg gwybodaeth, system iTrent, rhyddhau o ysbyty a CCTV. Atebodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod yr Awdurdod wedi buddsoddi’n sylweddol mewn systemau TG a fod ganddo bartneriaeth gref gyda SRS, awdurdodau lleol eraill a Heddlu Gwent. Bu’r newid i weithio cartref bron yn ddiwnïad ac mae’r Cyngor yn haeddu ei ganmol am hynny. Roedd Aelodau wedi cytuno ar gynllun buddsoddiad TG y llynedd er mwyn parhau i uwchraddio systemau TG, fodd bynnag byddai heriau gyda systemau’n methu o bryd i’w gilydd ond yn bwysig mae partneriaeth gadarn gyda SRS i ymateb yn gyflym i’r materion hynny. Teimlai fod y sefydliad wedi symud yn anhygoel o effeithlon i weithio ar blatfformau TG a drwyddi draw roedd systemau TG yr Awdurdod wedi perfformio’n rhagorol.<br><br>Yng nghyswllt cysylltedd TG mewn ysgolion, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg y bu rhai heriau am gysylltedd ysgolion ond y bu hwn yn fater Cymru gyfan yn gysylltiedig gyda Chroniad Band Eang Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan sydd tu allan i reolaeth uniongyrchol SRS ond sydd wedi creu gwahanol lefelau o gysylltedd ar draws nifer o ysgolion. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y sefyllfa wedi sefydlogi a bod cynlluniau yn eu lle i sicrhau cysylltedd ar gyfer ysgolion dros gyfnod yr haf a rhoddodd sicrwydd y byddai ysgolion mewn sefyllfa lawer mwy sefydlog wrth symud ymlaen.<br><br>Yng nghyswllt oedi wrth drosglwyddo gofal dywedodd y Cyfarwyddwr |

| | |
|---|---|
| | Gwasanaethau Cymdeithasol mai Blaenau Gwent yw'r awdurdod sy'n perfformio orau yng Ngwent yng nghyswllt oedi wrth drosglwyddo gofal ac maent yn gweithio'n galed i gynnal y safonau hyn ond yn anffodus mae problem ar draws Prydain yng nghyswllt recriwtio i'r sector gofal. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r cyflog byw gwirioneddol o fis Ebrill 2022 a byddai hynny'n helpu i gadw a recriwtio staff a theimlai mai hyn oedd dechrau'r daith i geisio gwella cyflogau a phroffesiynoldeb i recriwtio'r bobl gywir i'r sector. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y bu rhestr aros am becynnau gofal yn y cartref yn ddiweddar ac y rhoddwyd blaenoriaeth i ryddhau o ysbyty dros y gymuned, ac mai dim ond ychydig o bobl sy'n aros pecynnau gofal yn y cartref sydd ar hyn o bryd.<br><br>Yng nghyswllt system iTrent, dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol fod y system yn gweithredu'n llawn ar hyn o bryd ac na adroddwyd unrhyw broblemau lle mae rheolwyr yn methu cofnodi absenoldeb salwch.<br><br>Canmolodd y Cadeirydd y swyddogion ar eu gwaith rhagorol i gadw gwasanaethau rheng flaen yn weithredol drwy gyfnod anodd iawn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2; sef derbyn yr wybodaeth fel y'i cyflwynwyd. |

| Item ID | 6007 |
|---|---|
| Item Title | Rheoli Trysorlys – Datganiad Strategaeth Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Polisi MRP 2022/23 (yn cynnwys Dangosyddion Darbodus) |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu ar y Strategaeth Trysorlys, y Strategaeth Buddsoddi a'r Polisi Isafswm Darpariaeth Incwm (MRP) (yn cynnwys dangosyddion darbodus) i gael eu mabwysiadu ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, cyn ei hargymell yn ffurfiol i'r Cyngor.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyfrifeg yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef bod Aelodau yn ystyried y Datganiad Strategaeth Trysorlys Blynyddol, y Strategaeth Buddsoddiad Blynyddol a Datganiad Polisi'r MRP ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/2023 a Dangosyddion Darbodus Rheoli Trysorlys a gynhwysir ynddynt (Atodiad A) ac ni ystyriwyd unrhyw ddiwygiadau, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor ar gyfer ei gymeradwyo'n ffurfiol. |

| Item ID | 6008 |
|---|---|
| Item Title | Strategaeth Cyfalaf 2022/2023 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau ystyried y Strategaeth Cyfalaf (a roddir yn Atodiad 1) yn dilyn yr adolygiad blynyddol, i gael ei fabwysiadu ar gyfer blwyddyn ariannol |

| | |
|---|---|
| | 2022/2023.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyfrifeg yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef bod Aelodau yn ystyried y Strategaeth Cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 (a roddir yn Atodiad 1) ac na ystyriwyd unrhyw ddiwygiadau, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor ar gyfer ei gymeradwyo'n ffurfiol.<br><br>Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol yng nghylch y Pwyllgorau, diolchodd y Cadeirydd i Aelodau a Swyddogion am eu cyfraniad a'u cefnogaeth dros y 5 mlynedd ddiwethaf. |